

## CHWILIO AM WAED NEWYDD

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn chwilio am waed newydd. Nid yn lle'r aelodau presennol, ond i roi hwb ymlaen i ni. Rydyn ni angen syniadau newydd, ffres, am achosion da a gweithgareddau i godi arian iddyn nhw. Mae'r aelodau presennol yn weithgar a brwdfrydig ac yn rhai hawdd iawn gweithio gyda nhw!

Ydych chi'n teimlo'n gryf am ryw elusen leol? Oes gennych chi syniadau gwreiddiol i godi arian?

Dyma amlinelliad o gyfrifoldebau'r pwyllgor i chi rhag ofn eich bod yn awyddus i helpu gydag un o'r prosiectau sy eisoes yn ein gofal:

Ni sy'n gyfrifol am ddsbarthu cynnwys yr amlenni elusen i achosion da lleol ac yn y gorffennol rydym wedi cefnogi cyrff teilwng iawn, fel Gofalwyr

Ifanc, Y Bwthyn, Cymdeithas Syndrome Down's, Cymdeithas Alzheimer's, i enwi dim ond rhai. Margaret Calvert, un o aelodau'r gweithgor, sy'n trefnu rota bwydo'r digartref yng nghapel Y Tabernacl, Yr Ais, ar bawn Sul, bedair gwaith y flwyddyn.

Byddwn yn cefnogi Banc Bwyd Pontyclun drwy gasglu bwyd gan aelodau'r capel a'i ddanfôn yno, ac o fis Gorffennaf eleni, byddwn yn helpu i gasglu nwyddau yn Tesco, Tonysguboriau. Rydym yn cefnogi Nia Williams yn ei gwaith gyda Dolen Lesotho'r capel, ac Ann Dixey gyda'r hamperi Nadolig i bobl ifanc a theuluoedd anghenus.

Eleni, bu'n rhan o'n gwaith i hybu apêl gyfredol yr Annibynwyr, sef Apêl Haiti ac fel y gwyddoch, bu sawl digwyddiad yn sgîl hyn, yn ychwanegol at yr amlenni casglu.

Byddwn yn cyd-drefnu Gwledd Rhyddid Cristnogion yn erbyn Poenydio ym mis Tachwedd, gyda'r Ysgol Sul. Mae cyfraniad yr Ysgol Sul y llynedd yn dal yn felys yn y cof.

Ein cadeirydd, John Llew, yw trefnydd a chydlynnydd Wythnos Cymorth Cristnogol ac mae bob amser yn wythnos brysur iddo fe a llawer o aelodau'r capel.

Rydym fel gweithgor yn teimlo cyfrifoldeb parhaus i gynnal proffil uchel i waith elusennol y capel ac i fod yn ymwybodol o unrhyw argyfwng neu drychineb sy'n galw am weithredu ar frys.

Ydych chi awydd ymuno â ni? Neu ydych chi ffansi helpu gydag un o'r uchod? Neu oes gennych chi syniadau ffres ar ein cyfer?

Fe gewch fwy o wybodaeth gan John Llew, y cadeirydd, neu Ann Dwynwen, yr ysgrifennydd. Cysylltwch, da chi!

## Pwyllgor y Meddiannau

Bu hwn yn gyfnod gweddol dawel i Bwyllgor y Meddiannau - hoelen fan hyn a hoelen fan draw – dyfal donc gyda'r cynnal a chadw ac osgoi gwario gormod gan fod cyfnod o newidiadau mawr ar y gorwel.

Mae llwybrau'r fynwent angen sylw a gwres y capel yn achos pryder i rai ond fe ddaw'r gwelliannau hyn maes o law. Roedd materion eraill na ellid eu gohirio fel sicrhau bod y cyntedd yn ddiddos ar ôl glaw trwm y gaeaf a'r rheilings y tu allan i'r capel yn cael cot o baent. Paratowyd arwyddion i atgoffa na ddylid gosod rhwystr o flaen yr allanfa dân yn y capel ac mae'n diolch i unigolion ar y pwyllgor a dorchodd lewys i wneud y tasgau hyn gan arbed gorfod cyflogi'n allanol.

Un o uchafbwyntiau'r misoedd diwethaf oedd nosweithiau

glanhau'r fynwent ac efallai bod y mwyaf craff yn eich plith wedi sylwi bod wal wedi ail-ymddangos ar dop y fynwent. Diolch eto i'r criw bach ffyddlon ddaeth ynghyd i gyflawni'r gwaith. Er bod y gweithwyr yn brin cyflawnwyd cryn dipyn mewn awyrgylch hyfryd a'n hatgoffai o'r cymdeithasu ffraeth a'r trafod difyr a arferai ddigwydd yn ein capeli 'garte' 'slawer dydd!

Gan fod y cyngor yn eu doethineb wedi penderfynu cwtogi a symud un o'r goleuadau stryd mae golau nawr yn cael ei osod ar ffrynt y capel i oleuo'r llwybr i'r Ganolfan a phrif ddrws y capel.

Mae ein diolch yn fawr i Ann Dixey am y cydweithio hapus a fu rhyngom unwaith eto ac am yr holl waith diflino a gyflawnodd yn ystod y misoedd diwethaf. Hoffwn innau fel cadeirydd ddiolch i holl

aelodau'r pwyllgor am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd a'u parodrwydd bob amser i weithio er lles y capel.

Ddiwedd y flwyddyn daeth cyfnod Emllyn fel ysgrifennydd i ben ac mae'n dyled iddo yn fawr. Bu'n ysgrifennydd gweithgar o'r cychwyn gan sicrhau seiliau cadarn i ni fel pwyllgor. Diolch iddo am ei gyfraniad aruthrol a'i arweiniad cadarn a doeth ar bob achlysur. Mae'r bwlch a adawyd ar ei ôl mor fawr fel nad ydym wedi llwyddo i'w lenwi! Hoffwn felly apelio'n daer am aelodau newydd ac ysgrifennydd i'n pwyllgor a braf iawn fyddai gallu croesawu gwaed ifanc er mwyn sicrhau parhad y gwaith. Aelodau presennol y pwyllgor yw: Roy Davies, Rob Emanuel, Huw Herbert, Ioan Rees, Mike West, a Colin Williams. Does dim angen arbenigedd mewn DIY brwdfrydedd ac ymroddiad yw'r cymwysterau pwysig!

# TAFOD Y TAB

## Ysgol Sul



**CAPTION**

## Eirian Rees

Gyda llawenydd mawr y croesawyd Eirian yn ôl i'r oedfaon ar ôl ei driniaeth ddiweddar. Roeddem i gyd yn falch dros ben o'i weld yn dod yn ôl atom mor fuan ac yn edrych mor dda. Mae'n braf ei weld yn cymryd ei briod le yn ein plith unwaith yn rhagor.



## 'Te Prynawn Sul'

Tybed faint ohonoch chi gafodd eich cythruddo o weld lluniau o fyfyrwyr yn ymosod ar ddydd digartref yng Nghaerdydd yn ddiweddar? Cafodd y lluniau eu cyhoeddi mewn papurau newydd ac ar y we. Lluniau tra gwahanol yw rhai'r ffotograffydd Andrew McNeil dreuliodd ddwy noson yng nghwmni rhai o bobl ddigartref Caerdydd. O siarad â hwy llwyddodd i ennyn eu hymddiriedaeth ac mae ei luniau gonest a dirdynol yn adlewyrchu cymuned o bobl sy'n byw ar ymylon cymdeithas. Unigolion sydd, am ba bynnag reswm, wedi cefnu neu wedi eu troi allan gan gymdeithas.

Mae elusennau fel y Wallich, YMCA, Llamau a Huggard yn cynnig gofal ac ry'n ni fel aelodau y Tabernacl yn gwneud ein rhan hefyd. Mae criw bychan o dan arweiniad Margaret Calvert yn mynd i fwydo rhai o bobl ddigartref Caerdydd bob ryw 3

mis. Mae'n rhan o gynllun gan eglwysi a chapeli'r ardal gyda phob capel yn cymryd ei dro i ddsbarthu a pharatoi'r bwyd.

Dechreuodd y cynllun nôl yn yr wythdegau pan gafodd un o aelodau ifanc Capel y Tabernacl Caerdydd y syniad o agor y festri i bobl y stryd. Teimlodd bod lleoliad canolog y capel yn berffaith ar gyfer agor y drws yn ystod y dydd ac yn fuan ganed y gwasanaeth 'Te Prynawn Sul'.

Felly, mae Eglwys y Tabernacl Caerdydd wedi bod yn cynnig gwasanaeth ar brynawn Sul i'r anghenus ers bron i ddeng mlynedd ar hugain. Dros amser mae'r rhan fwyaf o gapeli Cymraeg y ddinas wedi cymryd eu tro ar y rota. Mae'r capel ar agor rhwng 3 a 4 o'r gloch bob pwnn Sul o'r flwyddyn gan gynnig te, coffi, brechdanau a bisgedi.

Erbyn heddiw, prin iawn yw'r rhai sydd heb wely - naill ai mewn hostel megis Tŷ Gobaith (Byddin

yr Iachawdwriaeth) neu fflat cyngor - ond nid yw gwely bob amser yn golygu cartref. Serch hynny, penderfynwyd newid enw'r gwasanaeth o 'Te i'r Digartref' i 'Te Prynawn Sul' sy'n fwy croesawgar a chan bod rhwng 30 a 40 yn gallu galw heibio bob wythnos, teimlwn bod angen y gwaith o hyd.

Rydym ni yn y Tabernacl, Efail Isaf wedi bod yn rhan o'r drefn yma ers dros bum mlynedd ar hugain, ac mae ein tro ni yn dod bob 12 wythnos. Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn gysylltiedig â'r 'Te Prynawn Sul' ers y dyddiau cynnar. Beth bynnag, rydym yn awyddus iawn i groesawu aelodau sydd heb fod yn rhan o'r ymgyrch yma hyd yn hyn. Does dim angen dod bob tro - mae hyd yn oed unwaith y flwyddyn yn gymorth.

Margaret Calvert yw ein cyswllt ni, felly cymerwch air â hi os oes diddordeb gennych - neu os hoffech chi ragor o wybodaeth.

## TREFN Y SULIAU

**Gorff 6:** Aelodau Ton-teg/  
Pentre'r Eglwys

**Gorff 13:** Sul y Cyfundeb  
10:30-11:30. Aelodau  
capeli'r cylch yn cyd-  
addoli ar y thema  
'Ffrwythau'r Ysbryd' yn  
Ysgol Gymraeg Pen-y-  
Garth, Penarth.  
Gofynnwyd i griw y  
Tabernacl baratoi slot 5  
munud ar y thema  
'Ffyddlondeb'.

**Gorff 20:** Emlyn Davies /  
Llywydd: Iwan Rowlands

**Gorff 27:** Gwaelod y  
Garth

**Awst 3:** Aelodau'r  
Tabernacl

**Awst 10:** Gwaelod y  
Garth

**Awst 17:** Allan James /  
Llywydd: Ann Dixey

**Awst 24:** Gwaelod y  
Garth

**Awst 31:** Geraint Rees /  
Llywydd: Huw Roberts

**Medi 7:** Aelodau Efail  
Isaf

**Medi 14:** Y Parch. Aled  
Edwards / Llywydd:  
Rhiannon Humphreys

**Medi 21:** Elenid Jones /  
Llywydd: Wyn Rees

**Medi 28:** Emlyn Davies /  
Llywydd: Ann Davies

## Rota'r Suliau

Eleni, roedd llenwi'r Suliau yn fwy o sialens na'r arfer a ninnau heb fedru dibynnu ar wasanaeth Eirian ar Sul cyntaf bob mis. Pan gynhaliwyd Cwrdd Eglwys i drafod y posibiladau ym mis Tachwedd y llynedd, penderfynwyd neilltuo'r Sul cyntaf ym mhob mis i gynnal Oedfa Ardal, a'r aelodau eu hunain yn gyfrifol am y Cymun. Hyd yn hyn, gallwn ddweud fod yr arbrawf wedi bod yn llwyddiant ysgubol: cawsom amrywiaeth o themâu diddorol a dyrchafol, a gweinyddwyd y Cymun gydag urddas ac arddeliad yn ddi-feth. Efallai mai'r peth mwyaf calonogol yw bod pob ardal wedi meddiannu'r syniad gyda brwdfrydedd, a hynny wedi golygu cyfarfodydd yn y gwahanol bentrefi i drafod a pharatoi, a thrwy hynny rannu profiadau a thrafod pynciau ysbrydol. Diolch i bawb am eu hymroddiad.

Rhaid diolch hefyd i'r Parchg. Aled Edwards am ei ymweliadau cyson, a mawr yw'r edrych ymlaen at ei genadwri bob mis. Diolch hefyd i'r Parchg. Allan R. Pickard am ei ymweliadau hwyliog.

Rydym yn sôn am gyfraniad gwerthfawr yr Ysgol Sul mewn man arall, felly dyma'r lle i ddiolch i'r tîm sy'n gyfrifol am weddill y Suliau, am y daflen wythnosol a'r sgriniau. O ran y Myfyrdod, rydym yn diolch yn fawr i Geraint Rees, Allan James, Elenid Jones, Keith Rowlands ac Emlyn Davies. Mae'r daflen wythnosol yn nwylo Nia Williams, Glenys Roberts, Geraint Rees, Ros Evans, Heulyn Rees ac Emlyn

Davies. Y tîm technegol sy'n paratoi'r sgriniau wythnosol yw Carwyn Lloyd-Jones, Huw Herbert, Rowland Wynne, Geraint Rees, Heulyn Rees, Dafydd Roberts, Huw Rees, Mal Pate, Nia Williams ac Emlyn Davies.

Rhaid cyfeirio at oedfa gofiadwy iawn Sul y Pasg, gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan, a bydd yr atgof yn aros yn hir am gyfraniad y plant a baratôdd y ffordd i'r darlleniadau effeithiol a deallus o gerddi perthnasol gan yr oedolion, a hynny mewn dull mor broffesiynol. Roedd yn oedfa ddefosiynol gofiadwy, yn deimladwy ac adloniadol yr un pryd. Diolch un ac oll, a gobeithio y medrwn ail adrodd hyn y flwyddyn nesaf.

Fe ymddengys bod ein hoedfaon mewn dwylo diogel iawn ar hyn o bryd, a diolch i bawb am eu hymroddiad a'u cyfraniadau gwerthfawr, heb anghofio'r Llywyddion wrth gwrs, a Rowland am eu trefnu. Law yn llaw â'r gwasanaethau mae'r rhai sy'n gweithio yn y cefndir yn bwydo gwybodaeth i'r Western Mail ac i'r Tafod. Diolch i Bethan a Loreen, a diolch pellach i Loreen am ofalu am y cardiau pen-blwydd wythnosol i blant yr eglwys.

### Cyfamod Eglwysig

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu'.

## Carey Williams

Wrth i'r rhifyn hwn o Tafod y Tab weld golau dydd, bydd un o'n haelodau mwyaf ffyddlon yn cyrraedd pen-blwydd nodedig iawn. Bu cyfraniad Carey Williams, fel Ysgrifennydd ac Organydd, i'r eglwys hon dros y blynyddoedd yn amhrisiadwy. Mae ganddo'r ddawn i greu naws arbennig mewn oedfaon, i gyfoethogi pob achlysur a rhoi gwefr i ni fel aelodau'r gynulleidfa Sul ar ôl Sul. Rydym yn freintiedig iawn yn cael mwynhau ei ddatganiadau. Mae ei ddewis heriol o gerddoriaeth wythnosol wedi ychwanegu at ein gwybodaeth o ddarnau clasurol heb sôn am y mwynhad cyson. Diolch Carey a phen-blwydd hapus iawn.

## Gweithgor Gweinidogaethu

Yn ddiweddar sefydlwyd pwyllgor newydd dan gadeiryddiaeth y Parch. Eirian Rees i ystyried a diogelu patrwm addoli'r Tabernacl ochr yn ochr â'r wedd weinyddol. Yn y cyfarfod agoriadol cafwyd gan Eirian amlinelliad o'r fframweithiau eglwysig presennol a chyfeiriad at yr her a oedd yn rhan o fywyd pob eglwys erbyn hyn. Soniwyd am y modd yr oedd y Tabernacl yn Efail Isaf wedi rhannu nifer o'r dyletswyddau presennol a chyfeiriwyd at y gwahanol bwyllgorau a oedd wrthi'n ymateb i'r cyfryw ddyletswyddau.

Roedd gan Y Bwrdd agenda benodol a nifer o ddyletswyddau safonol a statudol, dyletswyddau gweinyddol hollol ganolog i fodolaeth a pharhad yr eglwys. Ac eto, roedd angen corff arall i fod yn gyfrifol am gylch bywyd ysbrydol yr eglwys. Gydag amser, byddai'n rhaid i'r pwyllgor neu'r

gweithgor hwnnw bennu ffiniau ei gyfrifoldebau ac ystyried ei flaenoriaethau. Yr un pryd, roedd Eirian yn awyddus i gydnabod cyfraniad y gwahanol bwyllgorau a oedd eisoes yn gweithredu'n effeithiol a chyfeiriwyd at waith unigolion penodol a oedd yn gyfrifol am amrywiaeth o wahanol ddyletswyddau a oedd yn ganolog i fywyd yr eglwys o wythnos i wythnos. Soniwyd, er enghraifft, am drefnu llywyddion, creu rota'r myfyrdod, trefnu'r Ysgol Sul a Teulu Twm, llywio'r pwyllgor bugeilio, y pwyllgor adeiladu a'r gweithgor cyfiawnder cymdeithasol.

Mae'r Tabernacl erbyn hyn yn ymateb i nifer amrywiol o wahanol ddyletswyddau drwy gyfrwng rhwydwaith o bwyllgorau. Byddai'r strategaeth honno'n parhau wrth i'r gwahanol bwyllgorau ymateb i bob her newydd.

## O Fwrdd y Cyfarwyddwyr

Cadw cofnod o waith yr amrywiol bwyllgorau fu cynnwys cyfarfodydd y bwrdd yn ddiweddar. Bu criw o aelodau'r capel yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolydd o gwmi RHOMCO ac yng nghyfarfod diwetha'r bwrdd ar Mehefin 17eg cafwyd adborth o'r cyfarfodydd yma. Gobeithiwn fedru cychwyn ar y gwaith adeiladu mor fuan â phosib yn dibynnu ar y canllawiau a gawn. Mae'r pwyllgorau eraill hefyd wedi bod wrthi'n ddiwyd yn sicrhau bod pethau mewn trefn. Y prif newyddion yw bod pwyllgor newydd wedi'i sefydlu sef y pwyllgor gweinidogaethu a fydd yn canolbwyntio ar fywyd ysbrydol yr eglwys ymysg materion eraill. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch o galon i bawb sydd yn aelod o'r pwyllgorau amrywiol am eu cyfraniadau gwerthfawr yn ystod y misoedd diwethaf.

# YR YSGOL SUL

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai prysur i griw yr ysgol Sul. Huw a Beth sydd wedi bod yng ngofal trefniadau dosbarth 1 a 2 gan dynnu'r rhieni i mewn yn wythnosol i arwain gwersi. Mae'r plant yn lwcus iawn o gael Huw a Beth i arwain y sesiwn canu – pa ryfedd fod cymaint o sglein



*Dosbarth 1*



*Dosbarth 2*



Efallai i'r rheiny ohonoch sy'n codi'n blygeiniol ar fore Sadwrn weld ambell i wyneb cyfarwydd ar Stwnsh Sadwrn yn ddiweddar. Cafodd plant hynaf yr Ysgol Sul wahoddiad i ymuno â'r criw gwyllt a gwallgo yn y stiwdios yng Nghaerdydd. Yn ffodus chafodd yr un ohony nhw eu stwnsho!

ar y canu!?!)

Mae'r criw ifancaf – sef y plant o dan 5 oed - wedi bod yn dysgu am 'Deimladau' a'r 'Greadigaeth. 'Ffrindiau'r Iesu', 'Iesu'r Meddyg' a 'Solomon y Brenin Doeth' oedd themâu dosbarth 2 y tymor hwn..

Ers tro bellach mae'r criw hŷn yn mynd i Neuadd y Pentref at Heulyn a Catrin. Yno maen nhw'n cael sesiwn drafod ar faterion cyfoes cyn bwrw ymlaen â gweithgareddau ymarferol.

Rhaid llongyfarch criw dosbarth 3 am drefnu noson o gawl a chwis yn Neuadd y Pentref ym mis Ebrill er budd Cymdeithas Alzheimer's. Trefnwyd gwledd gyda digon o gawl i fwydo'r pentref cyfan ac roedd y pwddinau, yn ôl yr arfer, yn ormod o demtasiwn – gyda rhai yn teimlo rheidwydd i flasw mwy

nag un! Un o lwyddiannau mawr y noson oedd rhannu pawb yn dimau o oedranau ac ardaloedd gwahanol. Yn wir mewn rhai rowndiau llwyddodd y plant ieuengaf i ateb mwy o gwestiynau na'r hynaf a'r doethaf o'r criw. Diolch i Tomos am lunio'r cwis, i'r bobl ifanc am ddiddanu'r criw o'r llwyfan ac i Heulyn a Catrin a chriw dosbarth 3 am drefnu.



*Tomos Morse*

Codwyd £325 ar gyfer yr elusen.

Llongyfarchiadau i bawb o'r Ysgol Sul fu'n cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd eleni. O'r Eisteddfodau ysgol i'r genedlaethol mae'n braf gweld cynifer o blant yr Ysgol Sul yn hyderus wrth berfformio'n gyhoeddus.



*Dosbarth 3*



*Cwis yr Ysgol Sul*

## Trefniadau'r Haf

Er na fydd gwersi yn ystod gwyliau'r haf mae na weithgareddau amrywiol wedi eu trefnu. Ar fore Sul 6ed o Orffennaf bydd mabolgampau'r capel yn cael eu cynnal ar gae chwarae'r pentref. Dyma fydd y digwyddiad mawr olaf cyn torri am wyliau'r haf.

## Rhieni'r Ysgol Sul

Gan fod y capel a'r Ysgol Sul yn gwasanaethu ardal eang iawn penderfynwyd trefnu nosweithiau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod rhieni yr Ysgol Sul yn dod i adnabod ei gilydd yn well. Bydd y mamau yn mynd am gyri i Bontyclun ym mis Gorffennaf a bydd digwyddiad tebyg yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos i'r tadau. Bydd elw'r nosweithiau yma yn mynd tuag at elusennau'r capel.

## Gwasanaethau Arbennig

Yn ystod y flwyddyn mae plant a phobl ifanc y capel yn cyfrannu i'n gwasanaethau teuluol. Cafwyd gwasanaeth ysbrydoledig yng ngofal Gwerfyl Morse ym mis Ionawr ar y thema 'Cariad'. Cafwyd cyfraniadau graenus adeg oedfa Sul y Mamau, felly hefyd gyda Heulyn Rees adeg gwasanaeth Sul y Tadau. Ac wedi'r gwasanaeth hwnnw mentrodd criw i gopa'r Garth am bicnic. Pa ffordd well o ddatlu'r diwrnod arbennig?

## Trip Ysgol Sul Medi 20, 2014



**£10 y pen**  
(plant o dan 3 am  
ddim)

**Arian erbyn Medi 7**  
**i Catrin Rees**  
**Beth Roberts**  
**Lowri Roberts**

Bydd y trip eleni yn ymweld â sŵ Bryste ar 20fed Medi. Enwau i Catrin neu Bethan Reynolds cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Mae na fwriad i drefnu penwythnos i ffwrdd yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Y dyddiad sydd wedi ei drefnu yw Hydref 17-19. Os oes diddordeb gyda chi, yna siaradwch â Lowri Roberts neu Catrin Rees. Bydd yn addas i bawb – yn deuluoedd ac aelodau unigol.

### Clwb Babis

Wrth i'r babanod dyfu'n hŷn mae aelodaeth ac arweiniad y clwb babis wedi newid dros y misoedd diwethaf. Mae nifer o'r aelodau gwreiddiol wedi ymuno â chylchoedd meithrin lleol erbyn hyn. Y bwriad yw ail ddechrau'r clwb ym mis Medi yn y Ganolfan bob bore Llun rhwng 9:30 a 11:30. Os hoffech chi wybod mwy yna mynwch air gyda Wendy Reynolds neu Dafydd Tudor.

## Clwb Hwyl

i blant y Tabernacl

Cyfle i gymdeithasu dros yr Haf

Dydd Mawrth <b>Gorffennaf 29</b>	Dydd Mercher, <b>Awst 13</b>
10.30y.b	10.30y.b
<b>Mountain View Ranch</b>	<b>Garwnant</b>
(Caerffili)	(Bannau Brycheiniog)

**Dydd Iau, Awst 28**

10.30y.b

**Parc Gwledig Margam**

(sgwters neu feics yn opsiwn)

**Dewch yn llu am hwyl a sbri**

## Merched y Tabernacl

Ar ddechrau mis Mai treuliwyd orig fach ddigon pleserus a diddorol yn y Ganolfan yng nghwmni Beca Lewis Jones. Addysgwraig hawliau dynol yw Beca a phrif nod ei chwmni yw ystyried hawliau dynol, dinasyddiaeth a lles emosiynol gan edrych yn fanwl ar berthynas pobol â'i gilydd.

Yn anffodus bu'n rhaid gohirio'r trip trên i Lwydlo ym mis Mehefin am nifer o resymau ond mae'n bosib awn ni ym mis Medi pan, efallai, bydd llai o alwadau ar ein hamser!

Ni fyddwn yn cwrdd dros yr haf ond mae rhaglen amrywiol wedi ei pharatoi ar gyfer yr hydref.

Mae tua trideg ohonom 'ar y llyfrau' erbyn hyn a tua dwsin i bymtheg yn dod i'r cyfarfodydd. Byddem yn hapus iawn i groesawu wynebau newydd.

Rydym yn cynnal raffl bob mis ac mae'r elw yn mynd at elusennau lleol megis, Banc Bwyd Pont-y-clun, Canolfan Wallich (i helpu'r digartref yng Nghaerdydd), Pen-rhys ayyb

## Gweithgareddau Elusennol



*Bore coffi apel Haiti Geraint a Sara*

### Apêl Haiti

Diolch i Geraint a Sara am agor eu cartref i gynnal bore coffi yn ddiweddar ac i bawb a gyfrannodd mor hael. Diolch yn arbennig i Jen MacDonald am ddod â phlanhigion i'w gwerthu ac i bawb gyfranodd gacennau a gwobrau i'r raffl. Casglwyd £353 at Apêl Haiti.

Diolch hefyd i Elenid a groesawodd bawb i'w chartref ar

fore braf o Fehefin. Daeth rhyw ddeunaw o bobl ynghyd a chafwyd bore diddan yn mwynhau'r gwmniaeth ac yn blasu'r gwahanol deisennau - bu llawer wrthi yn brysur yn crasu pob math o deisennau a oedd wedyn ar werth. Rhwng yr holl docynnau a werthwyd a'r teisennau daeth y cyfanswm a godwyd tuag at Apêl Haiti i £243.

## Y Gofalwyr Ardal

Yr hyn sy'n braf o fod yn aelod o gapel yw'r ymdeimlad o berthyn. Ar adegau o lawenydd neu dristwch mae'n braf gallu rhannu profiadau neu ofyn am gymorth neu arweiniad. Mae gan y Tabernacl dîm o bobl sy'n barod i wrando ac estyn llaw. Mae croeso i chi gysylltu â'ch cynrychiolydd lleol. Os gwyddoch am rywun mewn profedigaeth neu'n anhwylyd yn eich pentref chi, cofiwch roi gwybod i un o'r gofalwyr ardal perthnasol, fel ein bod yn medru rhannu'r wybodaeth a'r consyrn gyda'n gilydd. Medrwyd hefyd drefnu fod gwybodaeth am unrhyw newydd da sy'n werth ei rannu yn cyrraedd y daflen wythnosol drwy e-bostio [emlyn.davies@which.net](mailto:emlyn.davies@which.net)

Dyma enwau'r gofalwyr ardal:

### Creigiau/Groesfaen

Geraint Davies, Jen MacDonald, Nia Williams

### Efail Isaf:

Shelagh Griffiths, Ann Rees, Loreen Williams

### Llantrisant:

Rhiannon Price, Glenys Roberts

### Pentre'r Eglwys:

Rhiannon Humphreys, Eirian Rowands, Carys Davies

### Meisgyn:

Jane Eryl Jones

### Pentyrch:

Marian Wynne

### Ton-teg:

Elaine James, Audrey Lewis

### Radur, Gwaelod-y-Garth:

Ros Evans

Mae yna le i waed ifanc ar y Pwyllgor - cysylltwch plis os am wirfoddoli eich gwasanaeth!

## Cyngerdd yr Ystafell Fyw

Braf cael dweud bod y cyngerdd yn y capel wedi codi £800 tuag at yr Ystafell Fyw. Diolch o galon i bawb a fu'n cymryd rhan - Ysgol Garth Olwg, Ysgol Maes y Bryn, Côr yr Einion a'r unawdydd Trystan Francis, ac i'r trefnwyr i gyd.

## Cymorth Cristnogol Mai 11-17

Casglwyd dros £1,300 wrth gasglu o ddrws i ddrws eleni. Fe ychwanegwyd at y swm teilwng hwnnw gan ddau gyfraniad personol gan ddod â'r cyfanswm i dros £3,000.

## Casgliad Lesotho

Diolch i bawb sydd yn cyfrannu mor hael yn fisol i gronfa Lesotho. Yn ddiweddar fe aed â'r swm anrhydeddus o £1000 allan i'r cyfrif a agorwyd gennym ym Maseru. Defnyddir yr arian i brynu bwyd i'r plant amddifad y mae teuluoedd yr Eglwys ym Mohale's Hoek yn eu bwydo yn feunyddiol.

## Adeilad y Capel

Wedi cwblhau'r Festri i'w throi'n Ganolfan dyrchafwyd ein llygaid tuag at adeilad y Capel.

Prosiect tra gwahanol yw adeilad y Capel. Mae'n gyfuniad o wneud gwaith cynnal a chadw sylweddol, a diweddarau a gwella'r cysuron corfforol yn hytrach na dymchwel ac ail adeiladu waliau fel a ddigwyddodd i greu'r Ganolfan.

Cytunais i wthio'r cwch i'r dŵr yma, ond gan bwysu'n drwm ar fy ffrind Peter Gillard, ddaeth â phrofiad oes yn ei sgil, a sefydlwyd Gweithgor Llywio i weithredu ar ran y Bwrdd i weld beth fyddai'n ymarferol a fforddiadwy. Cyfuniad oedd y Gweithgor o gydweithrediad aelodau Pwyllgor y Meddiannau a Peter. Penodwyd Mri. Rhomco, trefnesurwyr, er mwyn llunio cynllun rhesymol i warchod yr adeilad a gwneud gwell defnydd ohono i'r dyfodol.

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y trefnesurwyr



bron i ddwy flynedd yn ôl. Dansoddwyd hwn yn fanwl gan y Gweithgor a pharatowyd ystod o opsiynau. Rhannwyd y rhain mewn cyfarfodydd penodol gyda'r Cyfarwyddwyr ar y pryd. Swm a sylwedd hyn oedd i'r Cyfarwyddwyr gynnig cynllun yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd y llynedd. Gwrthodwyd y cynllun hwnnw drwy bleidlais dros welliant

fyddai'n cynnwys dileu seddi'r llawr yn gyfan gwbl.

Ar gais y Bwrdd, ac yn unol â dymuniad yr aelodau, aethpwyd ati'n gyntaf i wella mynediad i'r islawr. Galluogodd hyn archwiliad manylach o'r islawr gan y trefnesurwyr. Derbyniwyd adroddiad y trefnesurwyr yn ddiweddar ac ymddengys na fydd angen gwaith ychwanegol ar yr islawr. Ynghlwm wrth ddileu'r seddau mae mater gwresogi yn codi, ac ar hyn o bryd mae opsiynau gwresogi amgen dan ystyriaeth.

Ar hyn o bryd, amcan gost y prosiect yn fras yw tua £230,000, ond mae angen trafodaethau llawer manylach gyda'r trefnesurwyr. Nid yw'r cyfalaf sydd ar gael i ni yn bresennol yn ddigonol ond, bydd y Pwyllgor Codi Arian (PAPAT) yn mynd ati rhagblaen i bwysu a mesur, ac ystyried torri'r brethyn... a chodi arian ychwanegol, neu gyfuniad o'r ddau. Yn y man bydd aelodau PAPAT yn cyflwyno eu gweledigaeth i'w ystyried gan y Bwrdd.